**Rhif yr eitem ar yr agenda:**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Hydref 2012** |
| **Swyddog/Aelod Arwain:** | **Aelod Arwain dros Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau** |
| **Teitl:** | **Adolygiad o Fformiwla Cyllido Ysgolion Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynigion ymgynghori manwl ar gyfer y Fformiwla newydd i Gyllido Ysgolion Sir Ddinbych mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Rhoi gwybod i'r pwyllgor am y cynigion manwl ar gyfer y fframwaith cyllido newydd ac amlinellu'r risgiau gweithredol ac ariannol posibl.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n adolygu'r fframwaith cyllido ac yn cadarnhau eu bod yn cydnabod goblygiadau'r newidiadau yn y Fformiwla.

3.2 Bod yr Aelodau'n ystyried y fethodoleg mewn perthynas â phob elfen o'r Adolygiad Fformiwla, yn rhoi sylwadau amdani ac yn cadarnhau eu bod yn derbyn y cyfiawnhad dros y dyraniadau cyllid.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori sydd ynghlwm (atodiad 1) i'r Ysgolion ar 1 Hydref yn amlinellu cynigion manwl am fframwaith cyllido newydd i Sir Ddinbych.

4.2 Drafftiau yw'r cynigion o hyd a gallant newid gan ddisgwyl canlyniadau'r ymgynghoriad. Bwriedir eu gweithredu'n llawn ym mis Ebrill 2013.

4.3 Yn Atodiad 2, darperir dadansoddiad risg cychwynnol o bob ysgol gan ddangos y symudiad yn y gyllideb a lefel gyfredol y balansau. Bydd cyfarfodydd ymgynghori un ac un yn cael eu cynnal â'r holl ysgolion dros y bythefnos nesaf i drafod y goblygiadau yn eu cyllidebau dirprwyedig eu hunain felly bydd y dadansoddiad hwn yn un goddrychol nes bod y trafodaethau manwl llawn wedi digwydd.

4.3 Paratowyd taflen ffeithiau rheoli i helpu'r aelodau i fynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol pe byddent yn codi. Mae'n cael ei chynnwys yn Atodiad 3.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Bydd canlyniad yr adolygiad yn newid y ffordd y caiff cyllid ysgolion ei ddosbarthu a bydd yn caniatáu i'r ysgolion feddwl yn wahanol am y ffordd y maent yn rheoli eu cyllid dirprwyedig. Bydd hyn yn cefnogi blaenoriaeth Moderneiddio Addysg.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes unrhyw gost ychwanegol i'r adolygiad hwn gan fod y Fformiwla Cyllido'n fodd o ddosbarthu cyfanswm y cwantwm ysgolion i bob ysgol unigol. Bydd cyfanswm y cwantwm yn aros yr un fath ni waeth beth yw canlyniad yr adolygiad ond efallai bydd yn golygu bod cyllid yn cael ei adlinio'n wahanol ar draws yr ysgolion.

6.2 Efallai bydd cost yn gysylltiedig â gostyngiadau staff i'r ysgolion hynny sy'n cael llai o gyllid.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

7.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad â Phenaethiaid, Llywodraethwyr, Undebau Llafur, Swyddogion Addysg ac Aelodau Etholedig.

**8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

8.1 Mae perygl y gallai'r fformiwla newydd arwain, ar ôl ei gwblhau, at sefyllfa lle mae llu o ysgolion ar eu hennill ac ar eu colled am fod cymaint wedi newid o ran cyllid ysgolion ers dechrau Rheoli Ysgolion yn Lleol ym 1990. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod cyllid yn cael ei ddosbarthu'n deg ac yn gyfiawn i bob ysgol er mwyn inni fod yn ffyddiog, os yw'r fframwaith yn iawn, y bydd y cyllid a ddyfernir yn iawn. Bydd arian pontio'n cael ei ddyfarnu, lle bo angen, i leddfu effaith colli cyllid a bydd pob ysgol yn cael ei chefnogi'n unigol i sicrhau y gall ddatblygu ei chynlluniau ariannol o amgylch y fformiwla newydd.

8.2 Mae'n bwysig ystyried y materion ehangach o ran yr ysgolion a allai fod yn colli cyllid oherwydd rhaid i'w balansau a'u cynlluniau gwariant chwarae rhan hanfodol wrth asesu a fydd colli cyllid yn effeithio'n sylfaenol ai peidio ar ddarparu addysg. Bydd llawer o ysgolion yn gwario'r lefel o gyllid a gânt ac felly mae hyn yn ystumio gwir effaith y newidiadau yn y fformiwla. Mae'n bwysig bod y fformiwla'n cyllido lle mae costau real yn cael eu hachosi, ond hefyd lle mae lefel arbennig o

angen.

## 9. Pŵer i wneud y Penderfyniad

9.1 Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn rhoi'r pŵer i Awdurdodau Lleol ddyrannu cyllid i ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf cyfrannau cyllideb, gan ddefnyddio fformiwla cyllido a bennir yn lleol.

**Swyddog Cyswllt:**
Carly Wilson
Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau
01824 712633